WWW.UMABER.CO.UK/ETHOLIADAU

#ETHOLIADAUABER

# ETHOLIADAU SWYDDOGION

## CANLLAWIAU'R YMGEISWYR 2017

# CYNNWYS


| | |
|---|---|
| Pam Ymgeisio Mewn Etholiad? | 3 |
| Dyddiadau Pwysig | 4 |
| Academi & Briffio Ymgeiswyr | 5 |
| Sut I Sefyll | 6 |
| Sut Mae Undeb Y Myfyrwyr Yn Gweithio? | 7 |
| Rolau Swyddogion | 8 |
| Disgrifiadau O Rôl Y Swyddogion Llawn-Amser | 9 |
| Disgrifiadau O Rôl Y Swyddogion Rhan-Amser | 12 |
| Rheolau A Chanllawiau'r Etholiad | 14 |
| Pleidleisio | 15 |
| Canlyniadau | 16 |
| | 17 |




# PAM YMGEISIO MEWN ETHOLIAD?

Helo! Lauren ydw i, eich Llywydd, a dwi yma i'ch croesawu i'r adeg fwyaf cyffrous o'r flwyddyn. A dwi ddim yn son am y Nadolig; mae'n amser ar gyfer etholiadau Swyddogion Undeb Myfyrwyr Aberystwyth (UMAber)!



Caiff UMAber ei arwain gan 5 swyddog llawn-amser a 14 swyddog rhan-amser, sy'n llunio dyfodol yr undeb ac yn gweithio i roi'r profiad gorau posib i fyfyrwyr ym Mhrifysgol Aberystwyth.

Ddwy flynedd yn ôl, ymgeisiais ar gyfer rôl swyddog llawn-amser am y tro cyntaf; sefais eto llynedd ar gyfer y swydd sydd gen i ar hyn o bryd. Ond pam? Dwi'n eithriadol o angerddol ynglŷn â gwneud eich amser yn Aber yn wych, ac roeddwn i am wneud popeth y gallwn i gefnogi, cynrychioli a chreu newid i fyfyrwyr yma yn y Brifysgol.

Gan fod UMAber wedi cynnig cefnogaeth i mi, ynghyd â llawer o gyfleoedd fel myfyriwr, roeddwn am dalu'r gymwynas yn ôl. Gallaf ddweud yn ddidwyll bod hon wedi bod y swydd orau yn y byd, a dwi'n drist na fydd modd i mi wneud hyn byth eto. Mae bod yn swyddog yn gyfle i wneud gwahaniaeth gwirioneddol, ac nid yw cyfle o'r fath ar gael yn aml.

Nid yw'n gyfrinach bod cryn lawer o bethau wedi newid yn UMAber yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf, a dwi'n ffodus o fod wedi chwarae rhan mewn ffurfio UMAber newydd a gwell. Rydyn ni wrthi'n datblygu cynllun strategol newydd, sy'n cael ei lansio yn ystod yr haf eleni; mae'n gosod blaenoriaethau ac addewidion yr undeb ar gyfer y tair blynedd nesaf.

Rydyn ni hefyd yn canolbwyntio fwyfwy ar yr aelodaeth, sy'n golygu ein bod ni'n gweithio i gynnig cyfleoedd, cynrychiolaeth, cymorth a chyngor i fyfyrwyr, a dim arall. Rydyn ni hefyd wedi croesawu rhai aelodau staff newydd i'n helpu ni ar ein taith newydd a chyffrous. Ac yn olaf, mae'n debygol y byddwch wedi sylwi ein bod ni wedi diwygio rolau rhai o'n swyddogion - mae hyn y sgil gofyn i fyfyrwyr beth maen nhw'n credu sy'n bwysig a beth ddylem ni fod yn canolbwyntio arno.

Mae hwn yn gyfnod cyffrous a difyr i fod yn rhan o UMAber fel Swyddog, gan fod cyfle gennych i weithio gydag undeb sydd â ffocws newydd, cynlluniau ffres, tîm newydd o swyddogion a staff brwdfrydig; mae'n gyfle i fod yn berthnasol i'n myfyrwyr a bod â'r rhyddid i'w wneud yr UMAber rydych chi eisiau!

Mae bod yn Swyddog yn wahanol i unrhyw swydd arall yn y byd, felly os ydych chi erioed wedi ystyried sefyll mewn etholiad, beth am dreulio ychydig o amser yn darllen y llawlyfr etholiadau, dewch i siarad â'r swyddogion cyfredol a rhowch gynig arni.

Pob lwc yn ystod yr wythnosau nesaf, a dwi'n teimlo'n gyffrous dros ben i weld pwy fydd yn cymryd drosodd yr awenau ar gyfer y flwyddyn sydd i ddod.

Cofion gorau a llawer o gariad,
Lauren Marks
Llywydd 2016 -17

# DYDDIADAU PWYSIG

## SEFYLL YN AGOR
Dydd Mercher, 1 Chwefror

## SEFYLL YN CAU
4pm Dydd Mawrth, 28 Chwefror

## BRIFFIO AR GYFER YMGEISWYR
4pm Neu 6pm, Dydd Mawrth 28 Chwefror

## YMGYRCHU'N DECHRAU
Dydd Mercher, 1 Mawrth

## PLEIDLEISIO'N AGOR
9am, Dydd Llun 13 Mawrth

## PLEIDLEISIO'N CAU
3pm, Dydd Gwener 17 Mawrth

## NOSON Y CANLYNIADAU
8:30pm Dydd Gwener 17 Mawrth

# ACADEMI YMGEISWYR

Yr Academi Ymgeiswyr yw eich cyfle chi i ganfod popeth rydych chi angen ei wybod ynglŷn â'r gwahanol rolau swyddogion llawn-amser a rhan-amser, a sut maen nhw'n perthyn i Undeb y Myfyrwyr yn fwy cyffredinol. Gallwch weld y dyddiadau allweddol i gyd a ffeithiau am yr etholiadau, yn ogystal â holi cwestiynau i'r swyddogion cyfredol a'r staff ategol profiadol.

Mae croeso i holl fyfyrwyr Prifysgol Aberystwyth ddod i'r Academi Ymgeiswyr - does dim angen i chi fod ag unrhyw wybodaeth flaenorol o'r swyddi, yr etholiadau neu hyd yn oed Undeb y Myfyrwyr, a does dim rhaid i chi ymrwymo i enwebu eich hun fel ymgeisydd drwy fynychu'r sesiwn.

Cynhelir yr Academi Ymgeiswyr 1pm - 4pm ddydd Mawrth 21 Chwefror, 1pm - 4pm ddydd Iau 23ain o Chwefror a 2pm - 5pm ddydd Gwener 3ydd o Fawrth.

Bydd mwy o fanylion, gan gynnwys amseroedd a sut i drefnu eich lle, ar gael yn www.umabersu.co.uk/etholiadau ychydig cyn agor y cyfnod ymgeisio.

## SESIWN RAG WYBODAETH I YMGEISWYR

Mae hon yn rhan hanfodol o'r broses etholiadau mewn Undeb Myfyrwyr. Yn y sesiwn hon, byddwch yn cael yr holl wybodaeth sy'n ymwneud â rheolau'r etholiad, gwybodaeth bellach ynglŷn â sut mae pleidleisio'n gweithio ac eglurdeb ynglŷn â chyhoeddusrwydd (gan gynnwys cyfyngiadau ar wariant). Mae hwn yn gyfle i holi cwestiynau a datrys unrhyw beth nad ydych yn ei ddeall yn llwyr.

# SUT I YMGEISIO

Bydd ymgeisio'n agor ddydd Mercher 1 Chwefror, ac mae gennych tan 4pm ddydd Mawrth 28 Chwefror i ddweud wrthym a ydych am fod yn ymgeisydd ar gyfer rôl.

I ymgeisio ar gyfer rôl, rhaid defnyddio'r broses ganlynol:

1. Gallwch gyrchu'r ffurflen gofrestru ar gyfer ymgeisio yma www.umaber.co.uk/etholiadau
2. Dewiswch enw-defnyddiwr a chyfrin-air cofiadwy i gofrestru eich 'Proffil Ymgeisydd'.
3. Cwblhewch yr adran 'Eich Manylion'.
4. Dewiswch y rolau rydych chi am ymgeisio amdanynt.
5. Cliciwch 'Submit' i gadarnhau eich cofrestriad.

Unwaith i chi gyflwyno hwn, byddwch wedi creu 'Proffil Ymgeisydd' y gallwch gael mynediad iddo a'i olygu hyd at 12pm ddydd Iau 2 Mawrth, pan gaiff gwybodaeth gyhoeddusrwydd sydd wedi'i chyflwyno ei hanfon i'w gyfieithu.

I gael mynediad i'ch 'Proffil Ymgeisydd' dilynwch y camau isod:

1. Gallwch gael mynediad i'ch proffil ymgeisydd yn www.umaber.co.uk/etholiadau/hwbymgeisydd
2. Mewnbynnwch eich enw-defnyddiwr a chyfrin-air cofiadwy
3. Uwchlwythwch neu newidiwch eich testun cyhoeddusrwydd, sy'n cynnwys 200 gair ynglŷn â pham dylai myfyrwyr bleidleisio drosoch chi a chrynodeb o 20 gair, (fydd yn ymddangos ar y papur pleidleisio).
4. Cliciwch 'Update' i gadarnhau eich newidiadau/diweddariadau.

## DWYIEITHRWYDD

Mae UMAber yn fudiad dwyieithog ac felly mae'n orfodol i'r holl ymgeiswyr gynhyrchu deunydd ymgyrchu dwyieithog. Darperir cyfieithu i'r holl ymgeiswyr a byddwn yn ymdrechu i ddychwelyd eich cynnwys o fewn dau ddiwrnod ar ôl derbyn eich cais.

I wneud cais am gyfieithu bydd angen i chi e-bostio eich cynnwys i undeb.etholiadau@aber.ac.uk. Sicrhewch eich bod chi'n nodi natur y cynnwys yn glir ar bob dogfen rydych chi'n eu hanfon h.y. slogan, gwybodaeth ar boster a.y.b.

Wrth anfon eich cais rhaid i chi ddweud wrthym:

- Eich enw:
- Y rôl rydych chi'n sefyll amdani:
- Cyfanswm y geiriau:

# SUT MAE UNDEB Y MYFYRWYR YN GWEITHIO?

Mae Undeb y Myfyrwyr yn fudiad dan arweiniad myfyrwyr, felly yn y pen draw, chi'r myfyrwyr sy'n ei reoli. Caiff ei redeg gan gymysgedd o bobl, o Fwrdd yr Ymddiriedolwyr sy'n cyfarwyddo blaenoriaethau'r Undeb, gan sicrhau ei fod yn cynrychioli ei aelodau'n effeithiol; i Gyngor yr Undeb sy'n cwrdd pedair gwaith y flwyddyn ac yn cyfarwyddo gwaith yr Undeb, a'i swyddogion llawn-amser a rhan-amser.

Y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol yw'r corff goruchaf ar gyfer gwneud penderfyniadau, lle caiff yr holl fyfyrwyr wahoddiad i fod yn bresennol; fe'i cynhelir unwaith y flwyddyn, fel arfer yn ystod y tymor cyntaf. Mae'r Undeb hefyd yn cyflogi tîm bach o staff sy'n gofalu am agweddau gweithredol o ddydd-i-ddydd ac yn cynorthwyo swyddogion yn eu hamcanion.

Am wybodaeth fanylach am weithdrefnau gweithredu a llywodraethu Undeb y Myfyrwyr, ewch i'r wefan www.umaber.co.uk/eichundeb/llywodraethiant.

## CEFNOGAETHILWYDDO

Pwy bynnag gaiff ei ethol, gallwn eich sicrhau na fyddwch ar eich pen eich hun. Byddwn yn sicrhau fod gennych y sgiliau, yr hyder a'r wybodaeth i fod yn effeithiol. Byddwch yn cael cefnogaeth gan amrywiaeth o staff yr Undeb ac UCM Cymru. Bydd nifer o'r sgiliau y byddwch yn eu dysgu yn ystod eich blwyddyn yn y swydd yn caniatáu i chi addasu i amryw o rolau newydd, gan agor cyfleoedd ar gyfer y dyfodol. Os ydych chi angen eich darbwyllo ymhellach, mae rhestr isod o'r sgiliau defnyddiol y byddwch chi'n eu datblygu fel swyddog:

- Arweinyddiaeth
- Gweithio mewn tîm
- Gweithio'n annibynnol
- Siarad cyhoeddus
- Cynllunio a gweithredu strategaeth
- Cynllunio a chynnal ymgyrchoedd
- Sgiliau trefnu
- Cadeirio cyfarfodydd
- Sgiliau cyd-drafod
- Ysgrifennu adroddiadau
- Rheoli amser

Os ydych chi am gael mwy o wybodaeth am y cyfleoedd ar gyfer hyfforddiant a datblygiad sy'n perthyn i fod yn swyddog llawn-amser neu ran-amser, cysylltwch â ni drwy undeb.etholiadau@aber.ac.uk.

# ROLAU SWYDDOGION

## ROLAU'R SWYDDOGION LLAWN-AMSER

Etholir 5 Swyddog llawn-amser bob blwyddyn, a chânt eu talu i wasanaethu fel arweinwyr gwleidyddol UMAber am un flwyddyn, y tu allan i'w hastudiaethau. Mae gan bob un ohonynt ddyletswyddau unigol yn eu gwahanol rolau, ac maent yn gweithredu'r rhain ar sail yr addewidion a wnaed ganddynt yn eu maniffestos. Gyda'i gilydd, maen nhw'n cynrychioli holl fyfyrwyr Aberystwyth, ac ar y cyd maen nhw'n gyfrifol am hyrwyddo ac amddiffyn hawliau myfyrwyr, ymgyrchu ar faterion o bwys, hyrwyddo cyfranogiad yn yr Undeb a chydlynu parthau a grwpiau myfyrwyr.

Fel Swyddog llawn-amser, byddwch hefyd yn Ymddiriedolwyr ac yn eistedd ar Fwrdd Ymddiriedolwyr yr Undeb, yn ogystal ag eistedd ar wahanol bwyllgorau rheoli'r Brifysgol i siarad â'r grwpiau hynny ar ran myfyrwyr. Darperir hyfforddiant ar gyfer pob swyddog etholedig, ynghyd â chefnogaeth ac arweiniad i gyflawni eu rôl a throi eu hamcanion yn realiti.

**Dyddiad dechrau:**
**1af o Orffennaf 2017.**

**Pecyn anhygoel yn cynnwys 28 diwrnod o wyliau.**

**Swyddogion llawn amser yn cael £17,000 y flwyddyn.**

## ETHOLIADAU'R SWYDDOGION RHAN-AMSER

Etholir Swyddogion rhan-amser bob blwyddyn, ond yn wahanol i'r Swyddogion llawn-amser, maent yn gweithredu eu dyletswyddau'n gyfochrog â'u hastudiaethau. Mae gan bob swyddog rhan-amser gyfrifoldeb penodol, a gall rhai ohonynt gynrychioli grwpiau penodol o fyfyrwyr. Felly dim ond myfyrwyr sy'n hunan-ddiffinio i'r grwpiau penodol hynny gaiff sefyll neu bleidleisio ar gyfer y swyddi hyn. Er enghraifft, dim ond myfyrwyr sy'n hunan-ddiffinio fel menywod gaiff sefyll neu bleidleisio ar gyfer rôl Swyddog y Menywod.

Mae'r rolau hyn yn rhai gwirfoddol a bydd yr ymgeiswyr llwyddiannus yn cyflawni'r rôl ynghyd â'u hastudiaethau. Darperir hyfforddiant ar gyfer pob swyddog etholedig, ynghyd â chefnogaeth ac arweiniad i gyflawni eu rolau a throi eu hamcanion yn realiti.

# DISGRIFIAD Y SWYDDOGION LLAWN-AMSER

## SWYDDOG DATBLYGU'R UNDEB

Mae Swyddog Datblygu’r Undeb yn gweithio gyda’r tîm Swyddogion llawn-amser drwy adolygu materion allweddol myfyrwyr yn rheolaidd, yn ogystal â sicrhau bod ymgyrchoedd cynrychioli a gwleidyddol yn cydweddu ag anghenion myfyrwyr ym Mhrifysgol Aberystwyth.

Chi fydd prif gynrychiolydd myfyrwyr Prifysgol Aberystwyth, gan eistedd ar wahanol uwch bwyllgorau a chwrdd ag unigolion allweddol yn rheolaidd, er mwyn sicrhau bod perthynas gref rhwng yr Undeb, y Brifysgol a’r gymuned yn ehangach. Mi fyddwch hefyd yn gyfrifol am sicrhau bod yr Undeb yn cael ei gynrychioli ar lefel genedlaethol, drwy weithredu fel prif bwynt cyswllt ar gyfer UCM ac UCM Cymru.

Fel Cadeirydd Bwrdd yr Ymddiriedolwyr, byddwch yn gweithio’n glòs gyda Phrif Weithredwr yr Undeb i sicrhau bod amcanion strategol yr Undeb yn cael eu gweithredu, bod polisïau’n cael eu cynnal a bod penderfyniadau’n cael eu gwneud sy’n adlewyrchu gwerthoedd yr aelodau. Yn olaf, Swyddog Datblygu’r Undeb yw wyneb cyhoeddus Undeb y Myfyrwyr; byddwch yn gyfrifol am gyhoeddi datganiadau i’r wasg, cynnal cyfweliadau ac ymateb i unrhyw gwynion ac adborth gan aelodau. Mae’r rôl yn un heriol a buddiol i chi, ac mae pob diwrnod yn wahanol.

## SWYDDOG DIWYLLIANT CYMREIG A LLYWYDD UMCA

Mae’r Swyddog Diwylliant Cymreig a Llywydd UMCA’n sicrhau bod cynrychiolaeth i ddiwylliant Cymru a’r iaith Gymraeg o fewn Undeb y Myfyrwyr a’r Brifysgol. Byddwch yn cwrdd yn rheolaidd gydag unigolion allweddol ac adrannau perthnasol y Brifysgol i hyrwyddo anghenion siaradwyr Cymraeg a’r rheiny sy’n dysgu’r iaith.

Mae hyn yn cynnwys cydlynu ystod o ddigwyddiadau, gweithgareddau ac ymgyrchoedd, er mwyn sicrhau bod buddiannau siaradwyr Cymraeg yn cael sylw ac yn cael eu hybu. Mae yna wastad ddigon i’w wneud yn y swydd hon, o drefnu gwersi Cymraeg, ymgyrchu a hyrwyddo’r iaith, i sicrhau bod polisïau dwyieithrwydd yn gyfoes.

Fel Llywydd UMCA, mae disgwyl i chi amddiffyn ac ymgyrchu dros hawliau myfyrwyr Cymraeg eu hiaith a dysgwyr yn y Brifysgol, yn ogystal ag arwain ar lawer o ddigwyddiadau rheolaidd UCMA a gynhelir gydol y flwyddyn, o Wythnos y Glas i Wythnos Nefi Blŵ.

# DISGRIFIAD Y SWYDDOGION LLAWN-AMSER

## SWYDDOG CYFLEOEDD MYFYRWYR

Mae'r Swyddog Cyfleoedd Myfyrwyr yn sicrhau cynrychiolaeth myfyrwyr ar faterion sy'n ymwneud â chwaraeon, cymdeithasau, gwirfoddoli a chyflogadwyedd o fewn Undeb y Myfyrwyr a'r Brifysgol. Byddwch yn cynnal cyswllt rheolaidd â phwyllgorau'r clybiau a chymdeithasau, boed wyneb-yn-wyneb, drwy e-bost neu ar gyfryngau cymdeithasol, er mwyn deall barn myfyrwyr yn well.

Gan weithio gyda staff, byddwch yn helpu i gydlynu ystod o ddigwyddiadau, gweithgareddau ac ymgyrchoedd a fwriadwyd i gynyddu cyfranogiad a sicrhau eu bod yn weithgareddau ffyniannus dan arweiniad myfyrwyr yn Undeb y Myfyrwyr. Mae enghreifftiau o hyn yn cynnwys cadeirio'r Parthau Chwaraeon a Chymdeithasu, cynorthwyo gyda'r Wythnos Weithgareddau, Mis RAG, Rhyngolgampau, Superteams a Rygbi 7-bob-ochr Aber.

Yn olaf, byddwch yn cwrdd yn rheolaidd ag unigolion allweddol ac adrannau perthnasol i hybu datblygiad clybiau, cymdeithasau, gwirfoddoli a chyflogadwyedd myfyrwyr ym Mhrifysgol Aberystwyth.

## SWYDDOG MATERION ACADEMAIDD

Mae'r Swyddog Materion Academaidd yn sicrhau cynrychiolaeth myfyrwyr ar faterion sy'n perthyn i astudiaethau academaidd, gan gynnwys buddiannau myfyrwyr rhyngwladol ac ôl-radd; hefyd meysydd megis ehangu cyfranogiad, asesu ac adborth neu ddysgu ac addysgu. Byddwch yn cynnal cyswllt rheolaidd â chynrychiolwyr academaidd ac athrofa, boed wyneb-yn-wyneb, drwy e-bost neu ar gyfryngau cymdeithasol, er mwyn deall barn myfyrwyr yn well.

Gan weithio gyda staff, byddwch yn helpu i gydlynu ystod o ddigwyddiadau, gweithgareddau ac ymgyrchoedd a fwriadwyd i ymgysylltu myfyrwyr yn eu profiad academaidd a'i wella. Mae rhai enghreifftiau o hyn yn cynnwys cadeirio'r Parth Academaidd, adolygu hyfforddiant Cynrychiolwyr Academaidd, trefnu Gwobrau Dysgu UMAber, chwilio am dîm University Challenge, ac yn bwysicaf oll, lobïo'r Brifysgol i newid pethau rydych chi'n meddwl sy'n bwysig i fyfyrwyr.

Yn olaf, bydd gennych rôl allweddol yn strwythurau rheolaeth y Brifysgol, gan eistedd ar amryw o bwyllgorau a chwrdd ag unigolion allweddol ac adrannau perthnasol i hyrwyddo'r profiad academaidd.

# DISGRIFIAD Y SWYDDOGION LLAWN-AMSER

## SWYDDOG LLESIANT

Mae'r Swyddog Llesiant yn sicrhau cynrychiolaeth ar faterion sy'n perthyn i lesiant myfyrwyr, gan gynnwys cymorth i fyfyrwyr, lles, cydraddoldeb ac amrywioldeb. Mae'r rôl yn ymdrin ag ystod eang o faterion penodol, gan gynnwys llety a chymorth ariannol, yn ogystal ag iechyd meddwl a chorfforol. Byddwch yn adeiladu rhwydwaith o gysylltiadau rheolaidd, gan gynnwys Swyddogion rhan-amser, Cymdeithasau a chysylltiadau allweddol yn y Brifysgol a'r gymuned leol.

Gan weithio gyda staff, byddwch yn helpu i gydlynu ystod o ddigwyddiadau, gweithgareddau ac ymgyrchoedd a fwriadwyd i sicrhau bod myfyrwyr yn cael cymorth yn ystod eu hastudiaethau, ynghyd â gwella eu llesiant. Mae rhai enghreifftiau o hyn yn cynnwys cadeirio'r Parth Llesiant, cynorthwyo gyda Ffair Dai a Llety'r Undeb, cynrychioli buddiannau myfyrwyr i wahanol grwpiau, o'r Bwrdd Iechyd lleol i'r Cynulliad Cenedlaethol, ac yn bwysicach oll lobïo'r Brifysgol i newid pethau rydych chi'n credu sy'n bwysig i fyfyrwyr.

Yn olaf, byddwch yn cwrdd yn rheolaidd ag unigolion allweddol, adrannau perthnasol a chymdeithasau cymunedol i hybu datblygiad llesiant myfyrwyr ymhellach.

# DISGRIFIAD O ROL Y SWYDDOGION RHAN-AMSER

## CADEIRYDD YR UNDEB

Mae Cadeirydd yr Undeb yn gyfrifol am redeg Cyngor yr Undeb. Gan weithio gyda swyddogion eraill, mae'r Cadeirydd yn mynd ati i hyrwyddo cyfarfodydd y Cyngor ac yn sicrhau bod trafodaethau'n deg, yn agored a bod pob penderfyniad a wneir yn dryloyw a democrataidd.

## SWYDDOG YR IAITH GYMRAEG

Mae Swyddog yr Iaith Gymraeg yn cynrychioli myfyrwyr Cymraeg eu hiaith ar y campws, gan sicrhau bod yr iaith Gymraeg wrth galon yr Undeb. Gan weithio gyda swyddogion a mudiadau eraill, bydd Swyddog yr Iaith Gymraeg yn ymgyrchu ar faterion sy'n perthyn i'r diwylliant Cymraeg ac yn sicrhau bod barn myfyrwyr Cymraeg eu hiaith yn cael ystyriaeth.

## SWYDDOG YR AMGYLCHEDD A CHYNALADWYEDD

Mae Swyddog yr Amgylchedd a Chynaladwyedd yn cynrychioli myfyrwyr ac yn ymgyrchu ar faterion sy'n perthyn i'r amgylchedd a datblygiad cynaliadwy. Gan weithio gyda swyddogion, mudiadau a myfyrwyr eraill, mae Swyddog yr Amgylchedd a Chynaladwyedd yn sicrhau bod yr Undeb a'r Brifysgol yn gwella effaith amgylcheddol eu gwaith.

## SWYDDOG CODI ARIAN A RHODDI (RAG)

Mae'r Swyddog RAG yn cynrychioli myfyrwyr ar faterion sy'n ymwneud â gweithgaredd elusennol. Byddwch yn gweithio gyda chlybiau a chymdeithasau, lle bo hynny'n briodol, i gydlynu gweithgareddau a chynghori'r Undeb ar ffyrdd y gall wella effaith ei waith.

# DISGRIFIAD O ROL Y SWYDDOGION RHAN-AMSER

## SWYDDOG LHDTQ+,
## SWYDDOG Y MENYWOD,
## SWYDDOG MYFYRWYR ANABL,
## SWYDDOG MYFYRWYR CROENDDU, ASIAIDD A LLEIAFRIFOEDD ETHNIG,
## SWYDDOG MYFYRWYR RHYNGWLADOL,
## SWYDDOG MYFYRWYR HYN,
## SWYDDOG MYFYRWYR UWCHRADDEDIG,
## SWYDDOG CAMPWS LLANBADARN
## A SWYDDOG CAMPWS MAWRISIWS

Mae'r Swyddogion hyn y cynrychioli grwpiau penodol o fyfyrwyr. Gan redeg ymgyrchoedd, cynnig cymorth i fyfyrwyr a gweithredu fel ffynhonnell wybodaeth, byddwch yn gweithio gyda swyddogion eraill i sicrhau bod anghenion grwpiau penodol o fyfyrwyr yn cael eu diwallu, yn ogystal ag amddiffyn ac ymestyn cydraddoldeb ar gyfer pob myfyriwr sy'n hunan-ddiffinio neu'n uniaethu ag un o'r rolau.

## CYNRYCHIOLWYR ATHROFEYDD

Cynrychiolwyr Athrofeydd yw'r pwynt cyswllt cyntaf ar gyfer adborth a chreu datrysiadau ar y cyd ar lefel Athrofa. Byddwch yn gweithio gyda'r Swyddog Materion Academaidd i gynrychioli myfyrwyr i'r Brifysgol drwy eistedd gyda nhw ar wahanol bwyllgorau a mynychu'r Parth Academaidd. Byddwch yn cwrdd yn rheolaidd â Chynrychiolwyr Academaidd a Chyfarwyddwr eich Athrofa er mwyn darparu adborth ac ymateb iddo.

# RHEOLAU A CHANLLAWIAU'R ETHOLIAD

Mae'r broses ar gyfer sefyll yn yr etholiadau yn ogystal â phroses yr etholiadau i'w gweld yng Nghanllawiau'r Ymgeiswyr. Dim ond ceisiadau a gwblheir yn y ffordd hon ac o fewn y dyddiad cau penodol a gaiff eu derbyn.

Disgwylir i'r ymgeiswyr ymddwyn mewn modd teg a rhesymol yn ogystal ag ymgyrchu'n gadarnhaol sy'n helpu myfyrwyr i bleidleisio.

Ni chredwn fod rheolau cyfyngedig yn helpu'r broses etholiadol i annog myfyrwyr i drafod eu profiad yn y dyfodol neu eu helpu i bleidleisio. Felly, rydym yn gweithio ar greu cyn lleied o reolau â phosib. Disgwylir i'r ymgeiswyr sicrhau eu bod nhw a'u tîm yn cefnogi hyn.

Pe bai gennych unrhyw bryderon ynglŷn â sut caiff ymgyrchoedd eu cynnal, dylai fod gennych dystiolaeth y bydd yn effeithio ar ganlyniad y bleidlais. Os ydych chi am wneud cwyn ynglŷn â'r etholiadau. Rhaid defnyddio'r broses ganlynol:

Dylech lunio crynodeb o'r mater cynted â phosib a'i anfon at undeb.etholiadau@aber.ac.uk.

Rhaid i chi ddweud wrthym:

- Pwy ydych chi
- Beth yw eich cwyn (rhowch fanylion ynglŷn â pha reol sydd wedi cael ei thorri, os yw hynny'n bosib)
- Y dystiolaeth sydd gennych fod rheol wedi ei thorri
- Pa ganlyniad hoffech chi ei weld?

Bydd y Swyddog Etholiadau/Dirprwy Swyddog Etholiadau'n ystyried eich e-bost a gall ymgynghori ag eraill er mwyn penderfynu.

Byddwch yn derbyn e-bost gyda manylion eu penderfyniad. Caiff hyn ei wneud cynted â phosib, ond gall achosion mwy cymhleth gymryd amser i'w harchwilio.

Os ydych chi o'r farn na ddilynwyd rheolau'r etholiad, bod tystiolaeth newydd ar gael neu os ydych chi'n credu bod y Swyddog Etholiadau/Dirprwy Swyddog Etholiadau wedi dangos rhagfarn neu duedd, gallwch gyflwyno apêl i'r pwyllgor apeliadau.

Rhaid gwneud apêl cyn hanner-dydd fan pellaf ar y diwrnod ar ôl i benderfyniad y Swyddog Etholiadau/ Dirprwy Swyddog Etholiadau gael ei gyfathrebu. Dylech lunio crynodeb o'r apêl mewn e-bost a'i hanfon drwy undeb.etholiadau@aber.ac.uk. Dylech gynnwys eich rheswm dros apelio, pa dystiolaeth newydd sydd gennych a pha ganlyniad hoffech chi ei weld. Penderfyniad y Swyddog Etholiadau fydd yr un terfynol ac ni ellir apelio yn ei erbyn.

Ar gyfer Etholiadau Swyddogion, y Dirprwy Swyddog Etholiadau yw Martin Dodd (Rheolwr Cymorth i Fyfyrwyr a Chynrychiolaeth).

Dylid gwneud unrhyw gŵyn cyn gynted â phosib wedi'r digwyddiad. Bydd yn anodd iawn beirniadu cwynion a wnaed ar ôl cyfnod hir.

Mewn unrhyw achos, bydd cwynion dim ond yn cael eu derbyn tan awr ar ôl i'r pleidleisio gau.

I weld y rheolau llawn ar gyfer yr etholiadau, ewch i www.umaber.co.uk/eichundeb/llywodraethiant/printman.

# PLEIDLEISIO

Mae UMAber yn defnyddio Pleidlais Sengl Drosglwyddadwy (PSD) i ethol ein cynrychiolwyr myfyrwyr. Yn y bôn, mae hyn yn golygu bod gan bob pleidleisiwr gyfle i restru'r ymgeiswyr yn ôl trefn hoffter – byddant yn nodi rhifau yn hytrach na marc.

Rhaid i ymgeisydd buddugol dderbyn nifer penodol o bleidleisiau (cwota) i gael ei ethol, fydd yn newid gan ddibynnu ar y nifer o bleidleisiau a fwriwyd. Yn ein barn ni, dyma'r dull tecaf gan fod rhaid i'r ymgeiswyr gael cefnogaeth eang er mwyn ennill.

Mae tystiolaeth o Aberystwyth a phrofiadau undebau myfyrwyr eraill yn awgrymu'n gryf y caiff nifer y myfyrwyr sy'n pleidleisio mewn etholiad ei ddylanwadu'n gryf gan sut mae'r ymgeiswyr yn siarad â'r pleidleiswyr ac yn eu hannog i bleidleisio. Cyswllt wyneb-yn-wyneb yw'r peth pwysicaf mewn etholiadau.

Cofiwch, i lawer o fyfyrwyr mae'r weithred o bleidleisio'n rhywbeth rydym yn ei wneud unwaith neu ddwy'r flwyddyn, hyd yn oed i'r rheiny ohonom sy'n ei wneud yn 'rheolaidd' - ystyriwch sut mae hyn yn effeithio ar annog myfyrwyr i bleidleisio.

## SUT I BLEIDLEISIO

Bydd myfyrwyr yn derbyn dolen bleidleisio unigryw drwy E-bost y Brifysgol er mwy gallu pleidleisio; rydym hefyd yn gweithio gyda'r Brifysgol fel bod y ddolen hon yn dangos wrth i chi fewngofnodi i ApAber.

Cynhelir y bleidlais drwy blatfform Mi-Voice, sydd ar gael ar y linc unigryw byddwch yn derbyn.

Os ydych chi'n cael unrhyw anawsterau wrth geisio pleidleisio, e-bostiwch undeb.etholiadau@aber.ac.uk.

Caiff gwybodaeth bellach ynglŷn â phleidleisio ei rhyddhau yn y Rhagwybodaeth i Ymgeiswyr.

# CANLYNIADAU

Eleni rydym yn cynnal Te-Parti ar gyfer yr Ymgeiswyr rhwng 3pm a 4pm ddydd Gwener 17 Mawrth yn Ystafell Bwyllgor Undeb y Myfyrwyr. Mae'n gyfle i ymgeiswyr gael bwyta, yfed ac ymlacio ar ôl i'r bleidlais gau am 3pm.

Cyhoeddir yr enillwyr yn nes ymlaen y diwrnod hwnnw yn ein Noson Ganlyniadau, digwyddiad uchel ei broffil lle daw ymgeiswyr, timoedd ymgyrchu a chyfeillion at ei gilydd i ddathlu. Mae'r digwyddiad yn agored i fyfyrwyr oll ac fe'i cynhelir ym Mhrif Ystafell yr Undeb, gyda'r drysau'n agor am 7:30pm.

Wrth i gyfnod yr etholiadau fynd rhagddo, byddwn yn eich darparu â'r wybodaeth ddiweddaraf, ond am y tro, cadwch y dyddiad yn rhydd!

# BETH SY'N DIGWYDD AR OL YR ETHOLIAD?

## SWYDDOGION LLAWN-AMSER

Bydd pob swyddog a etholir yn dechrau ar eu blwyddyn yn y swydd ar 1 Gorffennaf 2017. Serch hynny, mae'n bosib y bydd gan Swyddogion llawn-amser hyfforddiant a throsglwyddo'r awenau wedi'i drefnu yn ystod Mehefin er mwyn iddynt ymgyfarwyddo â'u rôl newydd, a chwrdd â'r holl bobl allweddol y byddant yn gweithio gyda nhw. O'r herwydd, rydym yn argymell eich bod ar gael o ganol Mehefin ymlaen.

Rhwng canol Gorffennaf a dechrau Awst, cynhelir cyfres o ddigwyddiadau hyfforddiant cenedlaethol, ac rydym yn eich annog yn gryf i fynychu'r rhai sy'n berthnasol i'ch swydd. Ac wrth gwrs, mae'r flwyddyn academaidd fel arfer yn dechrau rhwng canol a diwedd Medi, pan fo myfyrwyr newydd yn dechrau cyrraedd y campws, a bydd gwahanol ddigwyddiadau a gweithgareddau'n cael eu cynnal hyd ddechrau mis Hydref.

Rydym felly'n argymell eich bod yn ystyried yr uchod i gyd wrth drefnu gwyliau, a bod yn ymwybodol o'r effaith ddifrifol gaiff cymryd gwyliau yn ystod y cyfnod hwn ar eich gallu i sicrhau'r canlyniadau rydych chi am eu cyflawni. Cofiwch na allwch fyth gael yr amser hwn yn ôl!

## SWYDDOGION RHAN-AMSER

Rydym yn sylweddoli y bydd amryw ohonoch, os nad pawb, am fynd adref dros yr haf a/neu weithio i gynnal eich astudiaethau. Serch hynny, os nad ydym yn cwrdd â chi tan ddechrau'r tymor, ni fyddwch yn gallu cael y gorau allan o'ch blwyddyn. Am y rheswm hwn, rydym yn gofyn i chi fynychu digwyddiad tua chanol Medi er mwyn mynd ati i annog a datblygu eich syniadau.

# NODIADAU

## SEFWCH!

Sefwch ar-lein nawr
**www.umaber.co.uk/etholiadau.**

Dyma'r unig ffordd i sefyll am rôl.

Y dyddiad cau ar gyfer sefyll yw
**4pm ar 28 Chwefror 2017.**

Dylid cyflwyno unrhyw gwestiynau i
**undeb.etholiadau@aber.ac.uk**

## PRIF GYSYLLTYDD:

Lauren Marks
Llywydd 2016-17
undeb.llywydd@aber.ac.uk

Martin Dodd
Dirprwy Swyddog Etholiadau
undeb.etholiadau@aber.ac.uk